**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Adroddiad Cynigion Drafft

Hydref 2025

© Hawlfraint CDFfC 2025

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open- government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn: www.cdffc.llyw.cymru

# RHAGAIR

Dyma ein hadroddiad sy'n cynnwys ein Cynigion Drafft ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynhelir yr arolwg hwn o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013") a dogfen Polisi ac Ymarfer 2025 Rhaglen Arolygon Etholiadol y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried cysylltiadau lleol a'r rhai sy'n dymuno cadw'r ffiniau presennol. Rydym wedi edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a gyflwynwyd i ni. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni gydbwyso'r materion a'r cynrychiolaethau hyn â'r holl ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried, a'r cyfyngiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Yn benodol, y gofyniad am gydraddoldeb etholiadol, ochr yn ochr ag ystyriaethau daearyddol arbennig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Aelodau a swyddogion y prif gyngor am ein cynorthwyo â'r wybodaeth i'n helpu i ddatblygu ein cynigion drafft, i'r Cynghorau Cymuned a Thref am eu cyfraniad, ac i bawb a wnaeth gynrychiolaethau.

Edrychwn ymlaen at dderbyn unrhyw safbwyntiau y gallech ddymuno eu rhannu.

**Beverly Smith**
**Cadeirydd**

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

## ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 5 |
| Pennod 2 | Crynodeb o'r Cynigion Drafft | 6 |
| Pennod 3 | Y Cynigion Drafft | 9 |
| Pennod 4 | Ymatebion i'r Adroddiad hwn | 24 |
| Pennod 5 | Cydnabyddiaethau | 25 |

ATODIAD 1 TREFNIADAU ETHOLIADOL PRESENNOL
ATODIAD 2 TREFNIADAU ETHOLIADOL ARFAETHEDIG



Argraffiad 1af Hydref 2025


**Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.**
**Mae'r ddogfen ar hon ar gael yn Saesneg.**


Darparwyd y cyfieithiad o'r adroddiad hwn gan Trosol



*Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru*
*4ydd Llawr – Adeilad y Llywodraeth*
*Parc Cathays*
*CAERDYDD*
*CF24 0BL*
*Rhif Ffôn: (029) 2046 4819*
*Rhif Ffacs: (029) 2046 4823*
*E-bost:* ymholiadau@cdffc.llyw.cymru
*www.cdffc.llyw.cymru*


FSC

INVESTORS IN PEOPLE

## Pennod 1. Cyflwyniad

1. Ar 4 Mehefin 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion fel y'u nodwyd yn Adroddiad Argymhellion Terfynol y Comisiwn ar gyfer yr arolwg o drefniadau cymunedol Caerffili. Mae'r Comisiwn yn deall y bydd yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu trwy gyfrwng Gorchymyn Gweinidogion Cymru. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnal ei arolwg etholiadol ar sail yr ardaloedd cymunedol yng Nghaerffili fel y byddant pan ddaw Gorchymyn Gweinidogion Cymru i rym. Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn 'Gorchymyn Caerffili (Cymunedau) 2025'. Mae'r adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer yr Arolwg Cymunedol ar gael ar wefan y Comisiwn.

2. Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) yn cynnal arolwg o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal yn unol â Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013").

3. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i gynnal arolwg o bob un o'r 22 Prif Gyngor yng Nghymru bob 12 mlynedd. Gellir gweld y rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r Comisiwn yn eu dilyn yn nogfen Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025: Polisi ac Ymarfer y Comisiwn, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

4. Mae'r Comisiwn bellach yn ceisio safbwyntiau ar y trefniadau etholiadol arfaethedig a nodir ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn. Ar ôl derbyn y safbwyntiau hyn, bydd y Comisiwn yn ystyried y cynrychiolaethau ac yn gwneud argymhellion terfynol i Lywodraeth Cymru. Yna, mater i Weinidogion Llywodraeth Cymru fydd gwneud y Gorchymyn, os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol, gydag addasiadau neu hebddynt.

5. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ysgrifenedig wedi'u seilio ar dystiolaeth a ffeithiau sy'n berthnasol i'r cynigion sy'n cael eu hystyried. Rhoddir manylion ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.


## Pennod 2. CRYNODEB O'R CYNIGION DRAFFT


1. Mae'r Comisiwn yn cynnig newid i drefniant wardiau etholiadol a ddylai sicrhau bod wardiau etholiadol llywodraeth leol yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor. Bydd y newid arfaethedig i drefniant wardiau etholiadol yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili.
2. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyngor â 67 o aelodau, sy'n llai na'r 69 o aelodau a argymhellwyd yn Arolwg Cymunedol Caerffili. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol arfaethedig o 2,012 o etholwyr fesul aelod.
3. Mae'r Comisiwn yn cynnig 28 o wardiau etholiadol.
4. Y dangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn y cynigion yw **Cwm Aber** a **Phenyrheol** (16% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r dangynrychiolaeth fwyaf yn **Crosskeys** (28% yn uwch na'r cyfartaledd sirol bresennol).
5. Yr orgynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn y cynigion yw **Llanbradach** a **Threcelyn** (19% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r orgynrychiolaeth fwyaf yn **Ynys-ddu** (23% yn is na'r cyfartaledd sirol bresennol).
6. Mae'r Comisiwn yn cynnig 24 o wardiau aml-aelod yn y sir, sef: deuddeg o wardiau etholiadol â dau aelod; naw ward etholiadol â thri aelod; a, thair ward etholiadol â phedwar aelod.
7. Mae'r Comisiwn wedi cynnig cadw trefniadau etholiadol presennol 24 o wardiau etholiadol.
8. Mae'r Comisiwn yn cynnig peidio â chael unrhyw wardiau etholiadol yn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned â wardiau, ynghyd â'i chymuned gyfagos.
9. Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol gan y Cynghorydd Sir Janine Reed a'r Cynghorydd Sir Jan Jones, y Cynghorydd Sir Bob Owen, Maer Tref y Coed-duon George Etheridge, a dau aelod o'r cyhoedd. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau'n ofalus cyn llunio ei gynigion. Mae'r holl gynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.

### Mapiau Crynhoi

1. Ceir mapiau thematig ar y tudalennau canlynol sy'n dangos y trefniadau presennol ac arfaethedig a sut maen nhw'n amrywio o gyfartaleddau presennol ac arfaethedig y sir, sef 1,954 a 2,012 o etholwyr fesul aelod, yn y drefn honno. Mae'r ardaloedd gwyrdd o fewn +/-10% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd melyn a chroeslinellau melyn rhwng +/-10% a +/-20% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd oren a chroeslinellau oren rhwng +/-20% a +/-50% o gyfartaledd y sir; ac, mae'r ardaloedd coch a chroeslinellau coch dros +/-50% o gyfartaledd y sir.
2. Fel y gellir gweld o'r mapiau hyn, mae'r trefniadau arfaethedig yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws y sir.

# Caerffili- Amrywiant Presennol mewn Cynrychiolaeth Etholaethol yn ôl y Gyfartaledd Sirol





Caerffili - Amrywiant mewn Cynrychiolaeth Ethoiaethol yn ôl y Gyfartaledd Sirol Arfaethedig
0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:112,200
Wardiau Etholaethol Caerffili
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig
Rhwng 10% ac 20% yn uwch (8)
Rhwng +/- 10% (13)
Rhwng 10% ac 20% yn is (7)
1. Coed-duon
2. Cefn Fforest Pengam
3. Hengoed
4. Maesycwmwr
5. Penyrheol
6. Penmaen
Twyncarno
Moriah Pontlotyn
Tredegar Newydd
Argoed
Cwm Darran
Bargod
Crymlyn
Sant Catwg
Newbridge
Pontllan-fraith
Aber-carn
Nelson
Ystrad Mynach
Llanbradach
Crosskeys Ynys-ddu
Cwm Aber
Bedwas Trethomas
Rhisga
Morgan Jones
Y Fan
Machen Rudry
Sant Martin
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## Pennod 3. Y CYNIGION DRAFFT

1. Disgrifir cynigion y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob cynnig newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:
   - Enw(au) y wardiau etholiadol presennol sy'n ffurfio'r ward etholiadol arfaethedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
   - Disgrifiad byr o'r trefniadau presennol o ran nifer yr etholwyr a'r aelodau etholedig;
   - Dadleuon allweddol a wnaed yn ystod trafodaethau'r Comisiwn;
   - Safbwyntiau'r Comisiwn;
   - Cyfansoddiad y ward etholiadol arfaethedig a'r enw arfaethedig;
   - Map o'r ward etholiadol arfaethedig (gweler yr allwedd isod).

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ▭ (du) | Ffin Ward Etholiadol Arfaethedig | ▭ (coch) | Ffiniau Cymunedol | ▭ (gwyrdd) | Ffiniau Wardiau Cymunedol |

### Wardiau Etholiadol a Gedwir

2. Mae'r Comisiwn wedi ystyried trefniadau etholiadol y wardiau etholiadol presennol a'r gymhareb etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol. Cynigir y dylid cadw'r trefniadau presennol yn y wardiau etholiadol canlynol, oherwydd bod y wardiau o fewn yr amrywiant +/- 20% derbyniol o'r Cyfartaledd Sirol arfaethedig. Mae'r enwau isod fel y maent yn ymddangos yng Ngorchymyn Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 2021, gyda'r ffurf Gymraeg yn gyntaf.

- Aber-carn | Abercarn
- Argoed
- Bedwas a Threthomas |Bedwas and Trethomas
- Coed-duon | Blackwood
- Cefn Fforest a Phengam | Cefn Fforest and Pengam
- Crymlyn | Crumlin
- Cwm Darran | Darran Valley
- Hengoed
- Llanbradach
- Machen a Rhydri | Machen and Rudry
- Maesycwmwr | Maesycwmmer
- Morgan Jones
- Moriah a Phontlotyn | Moriah and Pontlottyn
- Nelson
- Tredegar Newydd | New Tredegar
- Trecelyn | Newbridge
- Penmaen
- Penyrheol
- Pontllan-fraith |Pontllanfraith
- Sant Catwg | St Cattwg
- Sant Martin | St Martins
- Twyncarno | Twyn Carno
- Y Fan | Van
- Ystrad Mynach

### Enwau Arfaethedig ar gyfer Wardiau Etholiadol a Gedwir

3. Yn rhan o arolwg etholiadol, mae'r Comisiwn yn ystyried enwau wardiau etholiadol yn yr ardal sy'n destun arolwg. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn argymell newidiadau i enw ward etholiadol os yw'n ystyried y gellir gwella'r enw, p'un a yw'r Comisiwn hefyd yn argymell newidiadau i drefniadau etholiadol eraill sy'n effeithio ar y ward honno ai peidio. Yng ngoleuni dyletswydd y Comisiwn i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ffafrio un enw Cymraeg ar gyfer wardiau etholiadol sydd hefyd yn dderbyniol yn y Saesneg.

4. Mae gan ward etholiadol bresennol **Aber-carn** yr enw Cymraeg presennol **Aber-carn**, a'r enw Saesneg presennol **Abercarn**. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol **Aber-carn** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

5. Mae gan ward etholiadol bresennol **Argoed** yr enw unigol presennol **Argoed**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Argoed** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

6. Mae gan ward etholiadol bresennol **Bedwas a Threthomas** yr enw Cymraeg presennol **Bedwas a Threthomas**, a'r enw Saesneg presennol **Bedwas and Trethomas**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Bedwas Trethomas** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

7. Mae gan ward etholiadol bresennol **Coed-duon** yr enw Cymraeg presennol **Coed-duon**, a'r enw Saesneg presennol **Blackwood**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Coed-duon**, a'r enw Saesneg **Blackwood** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

8. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cefn Fforest a Phengam** yr enw Cymraeg presennol **Cefn Fforest a Phengam**, a'r enw Saesneg presennol **Cefn Fforest and Pengam**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Cefn Fforest Pengam** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

9. Mae gan ward etholiadol bresennol **Crymlyn** yr enw Cymraeg presennol **Crymlyn**, a'r enw Saesneg presennol **Crumlin**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Crymlyn**, a'r enw Saesneg **Crumlin** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

10. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cwm Darran** yr enw Cymraeg presennol **Cwm Darran**, a'r enw Saesneg presennol **Darran Valley**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Cwm Darran**, fel y cynigiwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

11. Mae gan ward etholiadol bresennol **Hengoed** yr enw unigol presennol **Hengoed**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Hengoed** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

12. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanbradach** yr enw unigol presennol **Llanbradach**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Llanbradach** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

13. Mae gan ward etholiadol bresennol **Machen a Rhydri** yr enw Cymraeg presennol **Machen a Rhydri**, a'r enw Saesneg presennol **Machen and Rudry**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw Cymraeg **Machen Rhydri**, a'r enw Saesneg **Machen Rudry** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

14. Mae gan ward etholiadol bresennol **Maesycwmwr** yr enw Cymraeg presennol **Maesycwmwr**, a'r enw Saesneg presennol **Maesycwmmer**. Argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg gadw'r enw Saesneg **Maesycwmmer**, a'r enw Cymraeg **Maesycwmwr** i fod yn gyson â'r hyn a ddefnyddir gan Gyngor Caerffili. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Maesycwmwr** ar gyfer y ward etholiadol, i fod yn gyson â'i bolisi enwi ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025 ac i gyd-fynd â rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

15. Mae gan ward etholiadol bresennol **Morgan Jones** yr enw unigol presennol **Morgan Jones**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Morgan Jones** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

16. Mae gan ward etholiadol bresennol **Moriah a Phontlotyn** yr enw Cymraeg presennol **Moriah a Phontlotyn**, a'r enw Saesneg presennol **Moriah and Pontlottyn**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Moriah Pontlotyn** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

17. Mae gan ward etholiadol bresennol **Nelson** yr enw unigol presennol **Nelson**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Nelson** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

18. Mae gan ward etholiadol bresennol **Tredegar Newydd** yr enw Cymraeg presennol **Tredegar Newydd**, a'r enw Saesneg presennol **New Tredegar**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Tredegar Newydd**, a'r enw Saesneg **New Tredegar** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

19. Mae gan ward etholiadol bresennol **Trecelyn** yr enw Cymraeg presennol **Trecelyn**, a'r enw Saesneg presennol **Newbridge**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg **Trecelyn**, a'r enw Saesneg **Newbridge** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig.

20. Mae gan ward etholiadol bresennol **Penmaen** yr enw unigol presennol **Penmaen**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Penmaen** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

21. Mae gan ward etholiadol bresennol **Penyrheol** yr enw unigol presennol **Penyrheol**. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw unigol **Penyrheol** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

22. Mae gan ward etholiadol bresennol **Pontllan-fraith** yr enw Cymraeg presennol **Pontllan-fraith**, a'r enw Saesneg presennol **Pontllanfraith**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Pontllan-fraith**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

23. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sant Catwg** yr enw Cymraeg presennol **Sant Catwg**, a'r enw Saesneg presennol **St Cattwg**. Mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Sant Catwg** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

24. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sant Martin** yr enw Cymraeg presennol **Sant Martin**, a’r enw Saesneg presennol **St Martins**. Mae’r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Sant Martin** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

25. Mae gan ward etholiadol bresennol **Twyncarno** yr enw Cymraeg presennol **Twyncarno**, a’r enw Saesneg presennol **Twyn Carno**. Mae’r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Twyncarno**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

26. Mae gan ward etholiadol bresennol **Y Fan** yr enw Cymraeg presennol **Y Fan**, a’r enw Saesneg presennol **Van**. Mae’r Comisiwn yn cynnig cadw’r enw Cymraeg **Y Fan**, a’r enw Saesneg **Van** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau arfaethedig.

27. Mae gan ward etholiadol bresennol **Ystrad Mynach** yr enw unigol presennol **Ystrad Mynach**. Mae’r Comisiwn yn cynnig cadw’r enw unigol **Ystrad Mynach** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw arfaethedig.

28. Byddai’r Comisiwn yn croesawu unrhyw sylwadau ar yr enwau wardiau a grybwyllwyd yn yr adran hon.

### Wardiau Etholiadol Arfaethedig

29. Ystyriodd y Comisiwn newidiadau i’r wardiau etholiadol sy’n weddill. Rhoddir manylion y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 1. Rhoddir trefniadau arfaethedig y Comisiwn yn Atodiad 2.

30. Yn yr adran ganlynol, wrth gyfeirio at wardiau etholiadol, mae’r Adroddiad yn cyfeirio at y wardiau etholiadol fel y’u hargymhellir gan y newidiadau canlyniadol yn Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Caerffili. Derbyniwyd yr argymhellion hyn yn llawn gan Lywodraeth Cymru ar 4 Mehefin 2025.

## CWM ABER

31. Mae ward etholiadol bresennol Cwm Aber yn cynnwys Cymuned Cwm Aber. Mae gan y ward etholiadol 4,666 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 20% yn is na’r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,668 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 20% yn is na’r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwm Aber | 4,666 | 3 | 1,555 | -20% | 4,668 | 1,556 | -20% |
| | **4,666** | **3** | | | **4,668** | | |

### Cynrychiolaethau

32. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol Cwm Aber.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

33. Mae’r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i’r ward etholiadol bresennol, sy’n lleihau nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Lleihau nifer y cynghorwyr ar gyfer ward etholiadol Cwm Aber


34. Mae’r Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y cynghorwyr ar gyfer ward etholiadol Cwm Aber er mwyn mynd i’r afael â’r lefelau amrywiant o’r cyfartaledd sirol arfaethedig. Mae’r Comisiwn yn cynnig neilltuo dau gynghorydd sir i’r ward etholiadol, sy’n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.

35. O ganlyniad i’r cynigion hyn, ni fyddai nifer yr etholwyr yn ward etholiadol Cwm Aber yn newid. Bydd ward etholiadol Cwm Aber yn cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, sydd 16% yn uwch na’r cyfartaledd sirol arfaethedig, sef 2,012. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,668 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 16% yn uwch na’r cyfartaledd sirol rhagamcanol arfaethedig, sef 2,013.

### Enwau Arfaethedig

36. O ganlyniad i’r cynigion hyn, mae’r Comisiwn yn cynnig cadw’r enw Saesneg presennol **Aber Valley** ar gyfer y ward etholiadol, a’r enw Cymraeg presennol **Cwm Aber**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau arfaethedig ar gyfer y ward etholiadol.

37. Mae’r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Cwm Aber ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â’r enw arfaethedig.


Cwm Aber
0
1
Cilomedrau
Graddfa 1:23,050
Ward Senghenydd
Cymuned Cwm Aber
Ward Abertridwr
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## CROSSKEYS AC YNYS-DDU

38. Mae ward etholiadol bresennol Crosskeys yn cynnwys Cymuned Crosskeys. Mae gan y ward etholiadol 2,051 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 28% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,502 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 28% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

39. Mae ward etholiadol bresennol Ynys-ddu yn cynnwys Cymuned Ynys-ddu. Mae gan y ward etholiadol 3,013 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 23% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,014 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 23% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Crosskeys | 2,501 | 1 | 2,501 | 28% | 2,502 | 2,502 | 28% |
| Ynys-ddu | 3,013 | 2 | 1,507 | -23% | 3,014 | 1,507 | -23% |
| | **5,514** | **3** | | | **5,516** | | |

### Cynrychiolaethau

40. Cafodd y Comisiwn un gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau etholiadol Crosskeys ac Ynys-ddu gan y Cynghorydd Sir Jan Jones a'r Cynghorydd Sir Janine Reed (Ynys-ddu). Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

41. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardaloedd:

- Cyfuno wardiau etholiadol Crosskeys ac Ynys-ddu

42. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol Crosskeys ac Ynys-ddu er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn y ddwy ward etholiadol. Mae'r Comisiwn yn cynnig neilltuo tri chynghorydd sir i'r ward etholiadol, a fydd yn cynnwys Cymunedau Crosskeys ac Ynys-ddu. Mae'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol ac yn cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr ar gyfer y wardiau, sef tri.


43. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gwrthwynebiad i'w Argymhellion Terfynol a chanlyniad canlyniadol yr Arolwg Etholiadol blaenorol yn gysylltiedig â wardiau etholiadol Crosskeys ac Ynys-ddu. Ystyriodd y Comisiwn lawer o'r pwyntiau a godwyd yn y gynrychiolaeth a gafwyd gan y Cynghorydd Sir Jan Jones a'r Cynghorydd Sir Janine Reed. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn credu mai cyfuno'r ddwy ward etholiadol yw'r unig opsiwn hyfyw i wella'r lefelau amrywiant o ganlyniad i safle daearyddol ward etholiadol Ynys-ddu, a'r ffaith bod amrywiant y ddwy ward etholiadol presennol yn fwy na +/-20% o'r cyfartaledd sirol. Mae'r Comisiwn yn croesawu adborth ar y cynnig ac yn annog cyfranogiad yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft.

44. O ganlyniad i'r cynigion hyn, bydd 5,514 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig Crosskeys ac Ynys-ddu, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 9% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig, sef 2,012. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 5,516 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 9% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,013.

### Enwau Arfaethedig

45. O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw unigol **Crosskeys Ynys-ddu** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig ar gyfer y ward etholiadol.

46. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Crosskeys Ynys-ddu ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw arfaethedig.


Crosskeys Ynys-ddu
Cilomedrau
Graddfa 1:29,390
0
2
Cymuned Crosskeys
Cymuned Ynys-ddu
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

## DWYRAIN RHISGA A GORLLEWIN RHISGA

47. Mae ward etholiadol bresennol Dwyrain Rhisga yn cynnwys wardiau cymunedol Trenewydd, Pontymister Tŷ Sign, a Phontymister Uchaf yng Nghymuned Rhisga. Mae gan y ward etholiadol 4,728 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 19% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,730 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 19% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

48. Mae ward etholiadol bresennol Gorllewin Rhisga yn cynnwys wardiau cymunedol Rhisga Dan-y-graig, Pontymister Isaf, Tref Rhisga a Fernlea, a Chaeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth yng Nghymuned Rhisga. Mae gan y ward etholiadol 3,979 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,981 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 2% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

| **Enw** | **Etholwyr 2025** | **Cynghorwyr** | **Cymhareb 2025** | **Amrywiant** | **Etholwyr 2030** | **Cymhareb 2030** | **Amrywiant 2030** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dwyrain Rhisga | 4,728 | 3 | 1,576 | -19% | 4,730 | 1,577 | -19% |
| Gorllewin Rhisga | 3,979 | 2 | 1,990 | -2% | 3,981 | 1,991 | -2% |
| | **8,707** | **5** | | | **8,711** | | |

### Cynrychiolaethau

49. Cafodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga gan y Cynghorydd Sir Bob Owen (Gorllewin Rhisga) ac 1 aelod o'r cyhoedd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

50. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n arwain at un yn llai o gynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga

51. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga. Mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r lefel amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn ward etholiadol Dwyrain Rhisga. Mae'r Comisiwn yn cynnig neilltuo pedwar cynghorydd sir i'r ward etholiadol, sydd un yn llai na nifer gyffredinol y cynghorwyr sir yn yr ardal. Mae'r cynnig hwn wedi'i seilio ar y gynrychiolaeth a gafwyd gan y Cynghorydd Sir Bob Owen ac mae'n creu ward etholiadol sy'n cydffiniol â Chymuned Rhisga, gan ddarparu ffiniau adnabyddadwy i'r etholwyr a gwelliannau i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


52. O ganlyniad i'r cynigion hyn, bydd 8,707 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig Rhisga, a gynrychiolir gan bedwar cynghorydd, sydd 8% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig, sef 2,012. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos

8,711 o etholwyr a gynrychiolir gan bedwar cynghorydd, sydd 8% yn uwch na’r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,013.

### Enwau Arfaethedig

53. O ganlyniad i’r cynigion hyn, mae’r Comisiwn yn cynnig yr enw Saesneg newydd **Risca** ar gyfer y ward etholiadol, a’r enw Cymraeg newydd **Rhisga**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau arfaethedig.

54. Mae’r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Rhisga ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â’r enw arfaethedig.


Rhisga
0
1
Cilomedrau
Graddfa 1:20,720
Ward Tref Rhisga a Fernlea
Cymuned Rhisga
Ward Pontymister Tŷ Sign
Ward Trenewydd
Ward Pontymister Uchaf
Ward Rhisga Dan-y-graig
Ward Pontymister Isaf
Ward Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## ABERBARGOED A BARGOED, A GILFACH

55. Mae ward etholiadol bresennol Aberbargoed a Bargoed yn cynnwys wardiau trefol Aberbargoed, Bargoed, a Pharc yn Nhref Bargoed. Mae gan y ward etholiadol 7,086 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 21% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 7,088 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 21% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

56. Mae ward etholiadol bresennol Gilfach yn cynnwys ward drefol Gilfach yn Nhref Bargoed. Mae gan y ward etholiadol 1,632 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 16% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 1,633 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 16% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberbargoed a Bargoed | 7,086 | 3 | 2,362 | 21% | 7,088 | 2,363 | 21% |
| Gilfach | 1,632 | 1 | 1,632 | -16% | 1,633 | 1,633 | -16% |
| | **8,718** | **4** | | | **8,721** | | |

### Cynrychiolaethau

57. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â wardiau etholiadol Aberbargoed a Bargoed, a Gilfach.

### Cynigion ffiniau Wardiau Etholiadol

58. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardaloedd:

- Cyfuno wardiau etholiadol Aberbargoed a Bargoed, a Gilfach


59. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau etholiadol presennol Aberbargoed a Bargoed, a Gilfach, er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol presennol yn ward etholiadol Aberbargoed a Bargoed. Mae'r Comisiwn yn cynnig neilltuo pedwar cynghorydd sir i'r ward etholiadol. Mae'r cynnig hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol ac yn cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr ar gyfer y wardiau, sef pedwar. Mae'r cynnig hwn yn creu ward etholiadol sy'n cydffiniol â Thref Bargoed, gan ddarparu ffiniau adnabyddadwy i'r etholwyr a gwelliannau i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

60. O ganlyniad i'r cynigion hyn, bydd 8,718 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig Bargoed, a gynrychiolir gan bedwar cynghorydd, sydd 8% yn uwch na'r cyfartaledd sirol arfaethedig, sef 2,012. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 8,721 o etholwyr a gynrychiolir gan bedwar cynghorydd, sydd 8% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 2,013.

## Enwau Arfaethedig

61. O ganlyniad i'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn yn cynnig yr enw Saesneg newydd **Bargoed** ar gyfer y ward etholiadol, a'r enw Cymraeg newydd **Bargod**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig.

62. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Bargoed ac unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw arfaethedig.


Bargod
0
1
Cilomedrau
Graddfa 1:17,200
Ward Bargod
Ward Aberbargoed
Tref Bargod
Ward Y Parc
Ward Gilfach
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## Pennod 4. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Dylid anfon pob sylw ar y cynigion drafft hyn at:

Y Prif Weithredwr

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

4ydd Llawr

Adeilad Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Neu drwy anfon neges e-bost at: ymgynghoriadau@cdffc.llyw.cymru


Gellir cyflwyno sylwadau hefyd drwy'r porth ymgynghori ar-lein: www.arolygoncymru.cymru erbyn 7 Rhagfyr 2025 fan bellaf.

2. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r broses arolygu, cyfeiriwch at dudalen we'r Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru

## Pennod 5. CYDNABYDDIAETHAU

1. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, y cynghorau cymuned a thref a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant am eu cymorth yn ystod y broses o ddatblygu'r cynigion drafft hyn.

**BEVERLEY SMITH (Cadeirydd)**



**MICHAEL IMPERATO (Dirprwy Gadeirydd)**



**DIANNE BEVAN (Aelod)**



**FRANK CUTHBERT (Aelod)**



**GINGER WIEGAND (Aelod)**



**BETHAN PRICE-WILLIAMS (Aelod)**



**KAREN JONES (Aelod)**



**FRANCES DUFFY (Aelod)**



**SHEREEN WILLIAMS MBE OStJ DL**
**(Prif Weithredwr)**



**Hydref 2025**

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
## AELODAETH CYNGOR SIR ARFAETHEDIG

**Atodiad 1**

| Rhif. | ENW | DISGRIFIAD | Nifer y CYNGHORWYR (Arfaethedig) | ETHOLWYR - 2025 | CYMHAREB 2025 | % Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig | ETHOLWYR - 2030 | CYMHAREB 2030 | % Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig | % Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig | Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cwm Aber** | Cymuned Cwm Aber (4,666), [4,668] | 3 | 4,666 | 1,555 | -20% | 3 | 4,668 | 1,556 | -20% | 6,385 |
| 2 | **Aberbargod a Bargod** | Wardiau Aberbargod (2,779), [2,780], Bargod (3,619), [3,620] a'r Parc (688), [688] o Dref Bargod | 3 | 7,086 | 2,362 | 21% | 3 | 7,088 | 2,363 | 21% | 9,963 |
| 3 | **Aber-carn** | Cymuned Aber-carn (4,075), [4,076] | 2 | 4,075 | 2,038 | 4% | 2 | 4,076 | 2,038 | 4% | 5,419 |
| 4 | **Argoed** | Cymuned Argoed (2,062), [2,062] | 1 | 2,062 | 2,062 | 6% | 1 | 2,062 | 2,062 | 6% | 2,764 |
| 5 | **Bedwas a Threthomas** | Wardiau Bedwas (3,488), [3,3489] a Threthomas (1,794), [1,795] o Gymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 3 | 5,282 | 1,761 | -10% | 3 | 5,284 | 1,761 | -10% | 6,561 |
| 6 | **Coed-duon** | Tref Coed-duon (6,508), [6,511] | 3 | 6,508 | 2,169 | 11% | 3 | 6,511 | 2170.3333 | 11% | 8,158 |
| 7 | **Cefn Fforest a Phengam** | Cymuned Cefn Fforest a Phengam (5,747), [5,749] | 3 | 5,747 | 1,916 | -2% | 3 | 5,749 | 1,916 | -2% | 7,358 |
| 8 | **Crosskeys** | Cymuned Crosskeys (2,501), [2,502] | 1 | 2,501 | 2,501 | 28% | 1 | 2,502 | 2,502 | 28% | 3,249 |
| 9 | **Crymlyn** | Cymuned Crymlyn (4,441), [4,442] | 2 | 4,441 | 2,221 | 14% | 2 | 4,442 | 2,221 | 14% | 5,801 |
| 10 | **Cwm Darran** | Cymuned Cwm Darran (1,867), [1,867] | 1 | 1,867 | 1,867 | -4% | 1 | 1,867 | 1,867 | -4% | 2,482 |
| 11 | **Gilfach** | Ward Gilfach (1,632), [1,633] o Dref Bargod | 1 | 1,632 | 1,632 | -16% | 1 | 1,633 | 1,633 | -16% | 2,065 |
| 12 | **Hengoed** | Wardiau Cefn Hengoed (1,640), [1,641] a Hengoed (2,203), [2,204] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 3,843 | 1,922 | -2% | 2 | 3,845 | 1,923 | -2% | 5,560 |
| 13 | **Llanbradach** | Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant (3,245), [3,247] | 2 | 3,245 | 1,623 | -17% | 2 | 3,247 | 1,624 | -17% | 3,991 |
| 14 | **Machen a Rhydri** | Wardiau Machen (2,964), [2,965] a Rhydri (901), [901] o Cymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 2 | 3,865 | 1,933 | -1% | 2 | 3,866 | 1,933 | -1% | 5,121 |
| 15 | **Maesycwmwr** | Cymuned Maesycwmwr (1,797), [1,798] | 1 | 1,797 | 1,797 | -8% | 1 | 1,798 | 1,798 | -8% | 2,495 |
| 16 | **Morgan Jones** | Wardiau Bryncenydd (858), [858], Parcyfelin (3,610), [3,611] a Tonyfelin (1,347) , [1,347] o Dref Caerffili | 3 | 5,815 | 1,938 | -1% | 3 | 5,816 | 1,939 | -1% | 7,607 |
| 17 | **Moriah a Phontlotyn** | Wardiau Abertysswg (1,045), [1,045], St David's a Moriah (1,607), [1,607] a Phontlotyn (1,363), [1,364] o Gymuned Rhymni | 2 | 4,015 | 2,008 | 3% | 2 | 4,016 | 2,008 | 3% | 5,390 |
| 18 | **Nelson** | Cymuned Nelson (3,545), [3,546] | 2 | 3,545 | 1,773 | -9% | 2 | 3,546 | 1,773 | -9% | 4,427 |
| 19 | **Tredegar Newydd** | Cymuned Tredegar Newydd (3,330), [3,330] | 2 | 3,330 | 1,665 | -15% | 2 | 3,330 | 1,665 | -15% | 4,661 |
| 20 | **Trecelyn** | Cymuned Trecelyn (4,873), [4,875] | 3 | 4,873 | 1,624 | -17% | 3 | 4,875 | 1,625 | -17% | 6,259 |
| 21 | **Penmaen** | Cymuned Penmaen (4,562), [4,564] | 2 | 4,562 | 2,281 | 17% | 2 | 4,564 | 2,282 | 17% | 5,716 |
| 22 | **Penyrheol** | Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn (9,297), [9,301] | 4 | 9,297 | 2,324 | 19% | 4 | 9,301 | 2,325 | 19% | 12,140 |
| 23 | **Pontllan-fraith** | Cymuned Pontllan-fraith (6,673), [6,675] | 3 | 6,673 | 2,224 | 14% | 3 | 6,675 | 2,225 | 14% | 8,269 |
| 24 | **Dwyrain Rhisga** | Wardiau Pontymister Tŷ Sign (1,848), [1,849], Pontymister Uchaf (1,333), [1,333], a Trenewydd (1,547), [1,548] o Gymuned Rhisga | 3 | 4,728 | 1,576 | -19% | 3 | 4,730 | 1,577 | -19% | 6,164 |
| 25 | **Gorllewin Rhisga** | Wardiau Pontymister Isaf (644), [644], Rhisga Fernlea a'r Dref, (1,384), [1,385], Rhisga Dan-y-graig (461), [461] a Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth (1,490), [1,491] o Gymuned Rhisga | 2 | 3,979 | 1,990 | 2% | 2 | 3,981 | 1,991 | 2% | 5,076 |
| 26 | **Sant Cattwg** | Wardiau Cascade (2,853), [2,854], Greenhill (1,710), [1,711] a Tir-y-berth (1,078), [1,078] o Gymuned Gelli-gaer | 3 | 5,641 | 1,880 | -4% | 3 | 5,643 | 1,881 | -4% | 7,419 |
| 27 | **Sant Martin** | Wardiau'r Castell (1,390) , [1,390], Cwrt Rawlins (2,268), [2,269], Twyn (1,702) , [1,703] a Watford (1,301) , [1,301] o Dref Caerffili | 3 | 6,661 | 2,220 | 14% | 3 | 6,663 | 2,221 | 14% | 8,470 |
| 28 | **Twyncarno** | Ward Twyncarno (2,255), [2,256] o Gymuned Rhymni | 1 | 2,255 | 2,255 | 15% | 1 | 2,256 | 2,256 | 15% | 3,105 |
| 29 | **Y Fan** | Cymuned y Fan (3,305), [3,306] | 2 | 3,305 | 1,653 | -15% | 2 | 3,306 | 1,653 | -15% | 4,682 |
| 30 | **Ynys-ddu** | Cymuned Ynys-ddu (3,013), [3,014] | 2 | 3,013 | 1,507 | -23% | 2 | 3,014 | 1,507 | -23% | 3,908 |
| 31 | **Ystrad Mynach** | Ward Ystrad Mynach (4,487), [4,488] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 4,487 | 2,244 | 15% | 2 | 4,488 | 2,244 | 15% | 5,465 |
| | | CYFANSWM:: | 69 | 134,796 | 1,954 | | 69 | 134,842 | 1,954 | | |

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd

Ffigyrau Etholiadol wedi'u darparu gan Cyngor Bwrdeistrefol Caerffili

| | 2025 | | 2030 | |
|---|---|---|---|---|
| Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Rhwng + neu - 20% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 4 | 13% | 4 | 13% |
| Rhwng + neu - 10% a + neu - 20% o'r Cyfartaledd Sirol | 14 | 45% | 14 | 45% |
| Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol | 13 | 42% | 13 | 42% |

Atodiad 2

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
## AELODAETH Y CYNGOR ARFAETHEDIG

| Rhif. | ENW | DISGRIFIAD<br>Fel y'i argymhellir | Nifer y CYNGHORWYR (Arfaethedig) | ETHOLWYR 2025 | Cymhareb 2025 | % amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig | ETHOLWYR 2030 | Cymhareb 2030 | % amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cwm Aber** | Cymuned Cwm Aber (4,666), [4,668] | 2 | 4,666 | 2,333 | 16% | 4,668 | 2,334 | 16% |
| 2 | **Bargod** | Tref Bargod (8,718), [8,721] | 4 | 8,718 | 2,180 | 8% | 8,721 | 2,180 | 8% |
| 3 | **Aber-carn** | Cymuned Aber-carn (4,075), [4,076] | 2 | 4,075 | 2,038 | 1% | 4,076 | 2,038 | 1% |
| 4 | **Argoed** | Cymuned Argoed (2,062), [2,062] | 1 | 2,062 | 2,062 | 2% | 2,062 | 2,062 | 2% |
| 5 | **Bedwas Trethomas** | Wardiau Bedwas (3,488), [3,3489] a Threthomas (1,794), [1,795] o Gymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 3 | 5,282 | 1,761 | -12% | 5,284 | 1,761 | -12% |
| 6 | **Coed-duon** | Tref Coed-duon (6,508), [6,511] | 3 | 6,508 | 2,169 | 8% | 6,511 | 2,170 | 8% |
| 7 | **Cefn Fforest Pengam** | Cymuned Cefn Fforest a Phengam (5,747), [5,749] | 3 | 5,747 | 1,916 | -5% | 5,749 | 1,916 | -5% |
| 8 | **Crosskeys Ynys-ddu** | Cymunedau Crosskeys (2,501), [2,502] ac Ynys-ddu (3,013), [3,014] | 3 | 5,514 | 1,838 | -9% | 5,516 | 1,839 | -9% |
| 9 | **Crymlyn** | Cymuned Crymlyn (4,441), [4,442] | 2 | 4,441 | 2,221 | 10% | 4,442 | 2,221 | 10% |
| 10 | **Cwm Darran** | Cymuned Cwm Darran (1,867), [1,867] | 1 | 1,867 | 1,867 | -7% | 1,867 | 1,867 | -7% |
| 11 | **Hengoed** | Wardiau Cefn Hengoed (1,640), [1,641] a Hengoed (2,203), [2,204] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 3,843 | 1,922 | -4% | 3,845 | 1,923 | -4% |
| 12 | **Llanbradach** | Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant (3,245), [3,247] | 2 | 3,245 | 1,623 | -19% | 3,247 | 1,624 | -19% |
| 13 | **Machen Rhydri** | Wardiau Machen (2,964), [2,965] a Rhydri (901), [901] o Cymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 2 | 3,865 | 1,933 | -4% | 3,866 | 1,933 | -4% |
| 14 | **Maesycwmwr** | Cymuned Maesycwmwr (1,797), [1,798] | 1 | 1,797 | 1,797 | -11% | 1,798 | 1,798 | -11% |
| 15 | **Morgan Jones** | Wardiau Bryncenydd (858), [858], Parcyfelin (3,610), [3,611] a Tonyfelin (1,347) , [1,347] o Dref Caerffili | 3 | 5,815 | 1,938 | -4% | 5,816 | 1,939 | -4% |
| 16 | **Moriah Pontlotyn** | Wardiau Abertysswg (1,045), [1,045], St David's a Moriah (1,607), [1,607] a Phontlotyn (1,363), [1,364] o Gymuned Rhymni | 2 | 4,015 | 2,008 | 0% | 4,016 | 2,008 | 0% |
| 17 | **Nelson** | Cymuned Nelson (3,545), [3,546] | 2 | 3,545 | 1,773 | -12% | 3,546 | 1,773 | -12% |
| 18 | **Tredegar Newydd** | Cymuned Tredegar Newydd (3,330), [3,330] | 2 | 3,330 | 1,665 | -17% | 3,330 | 1,665 | -17% |
| 19 | **Trecelyn** | Cymuned Trecelyn (4,873), [4,875] | 3 | 4,873 | 1,624 | -19% | 4,875 | 1,625 | -19% |
| 20 | **Penmaen** | Cymuned Penmaen (4,562), [4,564] | 2 | 4,562 | 2,281 | 13% | 4,564 | 2,282 | 13% |
| 21 | **Penyrheol** | Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn (9,297), [9,301] | 4 | 9,297 | 2,324 | 16% | 9,301 | 2,325 | 16% |
| 22 | **Pontllan-fraith** | Cymuned Pontllan-fraith (6,673), [6,675] | 3 | 6,673 | 2,224 | 11% | 6,675 | 2,225 | 11% |
| 23 | **Rhisga** | Cymuned Rhisga (8,707), [8,711] | 4 | 8,707 | 2,177 | 8% | 8,711 | 2,178 | 8% |
| 24 | **Sant Catwg** | Wardiau Cascade (2,853), [2,854], Greenhill (1,710), [1,711] a Tir-y-berth (1,078), [1,078] o Gymuned Gelli-gaer | 3 | 5,641 | 1,880 | -7% | 5,643 | 1,881 | -7% |
| 25 | **Sant Martin** | Wardiau'r Castell (1,390) , [1,390], Cwrt Rawlins (2,268), [2,269], Twyn (1,702) , [1,703] a Watford (1,301) , [1,301] o Dref Caerffili | 3 | 6,661 | 2,220 | 10% | 6,663 | 2,221 | 10% |
| 26 | **Twyncarno** | Ward Twyncarno (2,255), [2,256] o Gymuned Rhymni | 1 | 2,255 | 2,255 | 12% | 2,256 | 2,256 | 12% |
| 27 | **Y Fan** | Cymuned y Fan (3,305), [3,306] | 2 | 3,305 | 1,653 | -18% | 3,306 | 1,653 | -18% |
| 28 | **Ystrad Mynach** | Ward Ystrad Mynach (4,487), [4,488] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 4,487 | 2,244 | 12% | 4,488 | 2,244 | 11% |
| | | CYFANSWM: | 67 | 134,796 | 2,012 | | 134,842 | 2,013 | |

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd
Ffigyrau Etholiadol wedi'u darparu gan Cyngor Bwrdeistrefol Caerffili

| | 2025 | | 2030 | |
|---|---|---|---|---|
| Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Rhwng + neu - 20% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Rhwng + neu - 10% a + neu - 20% o'r Cyfartaledd Sirol | 13 | 46% | 13 | 46% |
| Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol | 15 | 54% | 15 | 54% |

© Hawlfraint CDFfC 2025